

## Cwricwlwm i Gymru: Crefydd, gwerthoedd a moeseg

**Ffurflen ymateb  
i'r  
ymgyngoriad**

Eich enw: Vaughan Salisbury

Sefydliad (os yw'n berthnasol): Cyngor Eglwysi  
Rhyddion Cymru

e-bost/rhif ffôn: vaughans143@gmail.com

Eich cyfeiriad: Glanaber, Tregeiriog, Llangollen, LL20  
7LA

Dylid dychwelyd ymatebion erbyn **28 Gorffennaf 2020** i:

Cangen y Celfyddydau, y Dyniaethau a Llesiant  
Y Gyfarwyddiaeth Addysg  
Llywodraeth Cymru  
Parc Cathays  
Caerdydd  
CF10 3NQ

neu gellir cwblhau'r ffurflen yn electronig a'i hanfon i'r cyfeiriad isod:

e-bost: [YmgynghoriadCGM@llyw.cymru](mailto:YmgynghoriadCGM@llyw.cymru)

**Cwestiwn 1** – A ydych yn cytuno y dylai crefydd, gwerthoedd a moeseg gwmpasu credoau crefyddol ac anghrefyddol sy'n argyhoeddiadau athronyddol (yn unol â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol) fel y'u disgrifir yn y ddogfen ymgynghori?

<b>Cytuno</b>	<input type="checkbox"/> x <input type="checkbox"/>	<b>Anghytuno</b>	<input type="checkbox"/>	<b>Ddim yn cytuno nac yn anghytuno</b>	<input type="checkbox"/>
---------------	---	------------------	--------------------------	--	--------------------------

**Sylwadau ategol** (hyd at 250 gair)

**Cwestiwn 2** – A ydych yn cytuno y dylai cynadleddau meysydd llafur cytunedig **ystyried** canllawiau statudol wrth ddatblygu eu maes llafur cytunedig lleol?

<b>Cytuno</b>	<input type="checkbox"/> x <input type="checkbox"/>	<b>Anghytuno</b>	<input type="checkbox"/>	<b>Ddim yn cytuno nac yn anghytuno</b>	<input type="checkbox"/>
---------------	---	------------------	--------------------------	--	--------------------------

**Sylwadau ategol** (hyd at 250 gair)

**Yn wir rydym o'r farn y dylai cynadleddau meysydd llafur cytunedig nid yn unig ystyried canllawiau statudol wrth ddatblygu eu meysydd llafur cytunedig lleol ond gweithredu yn gwbl unol â hwy.**  
**Yn berthnasol i'r uchod, beth yw ystyr y gair 'ystyried' yma? Beth yw ei rym yn gyfreithiol? Mae'n derm ag iddo argraff anelwig a phenagored, e.e. a fyddai'n dderbyniol gennych fod cynadledd maes llafur cytun yn ystyried ac wedyn yn gwrthod canllawiau statudol y llywodraeth?**

**Cwestiwn 3** – A ydych yn cytuno â'n cynnig y dylid ei gwneud yn ofynnol i ysgolion cymunedol a sefydledig ac ysgolion gwirfoddol **heb nodweddion crefyddol** ystyried maes llafur cytunedig wrth ddylunio crefydd, gwerthoedd a moeseg a'i roi ar waith?

<b>Cytuno</b>	<input type="checkbox"/> x <input type="checkbox"/>	<b>Anghytuno</b>	<input type="checkbox"/>	<b>Ddim yn cytuno nac yn anghytuno</b>	<input type="checkbox"/>
---------------	---	------------------	--------------------------	--	--------------------------

**Sylwadau ategol** (hyd at 250 gair)

**Rydym yn ailadrodd ein consyrn yma am ystyr y gair 'ystyried'.**

**Cwestiwn 4** – A ydych yn cytuno â'n cynnig na chaiff rhieni/gofalwyr dysgwyr mewn ysgolion **heb nodweddion crefyddol** ofyn i ysgol addysgu crefydd, gwerthoedd a moeseg yn unol â daliadau ffydd benodol mwyach?

<b>Cytuno</b>	<input type="checkbox"/> x <input type="checkbox"/>	<b>Anghytuno</b>	<input type="checkbox"/>	<b>Ddim yn cytuno nac yn anghytuno</b>	<input type="checkbox"/>
---------------	---	------------------	--------------------------	--	--------------------------

**Sylwadau ategol** (hyd at 250 gair)

--

**Cwestiwn 5** – A ydych yn cytuno â'r cynnig y dylai ysgolion gwirfoddol a reolir â **nodweddion crefyddol** allu addysgu crefydd, gwerthoedd a moeseg yn unol â gweithredoedd ymddiriedolaeth neu ddaliadau ffydd yr ysgol **os bydd rhieni/gofalwyr yn gofyn iddynt wneud hynny?**

<b>Cytuno</b>	<input type="checkbox"/>		<b>Anghytuno</b>	<b>x</b> <input type="checkbox"/>	<b>Ddim yn cytuno nac yn anghytuno</b>	<input type="checkbox"/>
---------------	--------------------------	--	------------------	--------------------------------------	--	--------------------------

**Sylwadau ategol** (hyd at 250 gair)

**Gan gyfeirio at paragraff 24, rydym o'r farn y dylid 'addysgu Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn unol â maes llafur cytunedig i ddisgyblion fel mater o drefn ..' yn unig. Mae'n bwysig fod dysgwyr yn deall ac yn cael y cyfle i drafod a gwerthuso y gwahanol safbwyntiau crefyddol ac anghrefyddol sydd yn ein cymdeithas ac i'r perwyl hwn, byddai'n fuddiol iddynt dderbyn addysg am y materion hyn.**

**Cwestiwn 6** – A ydych yn cytuno y dylai fod yn **ofynnol** i **ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir â nodweddion crefyddol** addysgu yn unol â'r maes llafur cytunedig **os bydd rhiant/gofalwr yn gofyn iddynt wneud hynny**, ac a ddylai fod ganddynt ddisgresiwn i wrthod cais o'r fath?

<b>Cytuno</b>	<b>x</b> <input type="checkbox"/>	<b>Anghytuno</b>	<input type="checkbox"/>	<b>Ddim yn cytuno nac yn anghytuno</b>	<input type="checkbox"/>
---------------	--------------------------------------	------------------	--------------------------	--	--------------------------

**Sylwadau ategol** (hyd at 250 gair)

**Eto, er mwyn i ddysgwyr wynebu a deall y gwahanol safbwyntiau crefyddol ac anghrefyddol yn ein cymdeithas, byddai'n fuddiol iddynt dderbyn addysg am y materion hyn. Geiriad Cwestiwn 6: y cymal olaf, '.. ac a ddylai ..' – onid '.. ac na ddylai ..' fod yma?**

**Cwestiwn 7** – Hoffem wybod eich barn am yr effeithiau y byddai'r cynigion hyn mewn perthynas â chrefydd, gwerthoedd a moeseg yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol ar:

- i) gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg
- ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Beth fyddai'r effeithiau, yn eich barn chi? Sut y gellid cynyddu effeithiau cadarnhaol neu liniaru effeithiau negyddol?

**Sylwadau ategol**

- i) Byddai dysgwyr yn cael cyfle i ehangu eu geirfa pynciol a dod yn gyfarwydd â safbwyntiau sy'n bodoli yn ein cymdeithas ac ennyn hyder i drafod y materion hyn tra byddant yn yr ysgol ac ar ôl dyddiau ysgol.
- ii) Trwy wneud yr hyn sydd wedi ei nodi yn i) ni fydd y Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.
- iii) Mae hyn yn golygu bydd angen i adnoddau sylweddol dwyieithog gael eu paratoi ar draws y rhychwant oedran gyda'r adnoddau cyfrwng Cymraeg yn cael eu cyhoeddi yr un pryd â'r rhai Saesneg.

**Cwestiwn 8** – Eglurwch hefyd sut gellid ffurfio neu newid y polisi arfaethedig ar grefydd, gwerthoedd a moeseg yn y Cwricwlwm i Gymru:

- i) fel bod effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg
- ii) fel nad oes effeithiau andwyol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

### Sylwadau ategol

**Gweler yr atebion i Gwestiwn 7 uchod.**

**Cwestiwn 9** – Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi unrhyw bryderon nad ydym wedi rhoi sylw penodol iddynt, defnyddiwch y blwch isod i roi gwybod i ni amdanynt.

**Paragraffau 16, 17 ac 18.** Mae'r paragraffau hyn yn ymddangos yn ddryslyd ac aflêr eu cyflwyniad. Fe ddylid fod wedi ei wneud yn glir o'r dechrau bod angen i'r newidiadau deddfwriaethol ffocysu ar a) anghenion cynnwys y pwnc a b) aelodaeth CMLIC a CYSAG mewn awdurdod lleol.

Mae Paragraff 16 yn cyfeirio at newidiadau i'r ddeddf ar Addysg Grefyddol ond nid yw'n cynnig geiriad penodol. Rydym felly yn parhau'n anwybodus ynglŷn â beth yn union fydd y newid a fwriedir. Mae angen egluro'n fanylach y meini prawf a ddefnyddir i benderfynu pa gredoau anghrefyddol fydd yn dderbyniol i'w cynnwys mewn Maes Llafur Cytunedig. Nid yw'r ymadrodd 'fel dyneiddiaeth ac anffyddiaeth' yn rhoi digon o arweiniad. Mae erthygl werthfawr yr Athro Russell Sandberg '*Radical reform of 'Religion, Values and Ethics' in Welsh schools*', Law and Religion UK, 6 May, 2020, yn trafod y materion hyn yn fanylach ac yn nodi nifer o gwestiynau perthnasol. O ystyried hyn, mae'n bwysig fod y 'canllawiau' y sonnir amdanynt ym mrawddeg olaf paragraff 16 yn rhai eglur a thrylwyr.

**Mae Paragraff 17 yn peri dryswch:**

- a) Mae'n cyfeirio at aelodaeth CMLIC a CHYSAGAU ond mae'r frawddeg olaf yn dechrau 'Caiff newidiadau hefyd eu gwneud ..'. Anodd yw deall ystyr y gair 'hefyd' fan hyn.
- b) yn y frawddeg olaf ceir '.. i greu grwpiau newydd i gynrychioli'r rhai hynny ag argyhoeddiadau athronyddol o'r fath'. Ai'r awgrym felly yw y bydd angen mwy nag un grwp i gynrychioli'r argyhoeddiadau athronyddol hyn? Os dyna'r bwriad, byddwn yn anghytuno'n sylfaenol â hynny. Gan gofio bod y cyrff hyn

yn rhai statudol, byddai wedi bod yn fuddiol os byddech chi wedi nodi'n glir pa grwpiau yn union fydd yn aelodau o'r CMLIC a CHYSAGau'r dyfodol.

I'r perwyl hwn, rydym yn cynnig y dylai'r grwpiau canlynol fod yn aelodau CMLIC a CHYSAGau'r dyfodol:

- i) Cynghorwyr Sir;
- ii) Athrawon CGM Uwchradd;
- iii) Athrawon CGM Cynradd;
- iv) Cynrychiolwyr Yr Eglwys yng Nghymru a'r Eglwys Gatholig;
- v) Cynrychiolwyr Enwadau Cristnogol eraill;
- vi) Cynrychiolwyr Grwpiau Ffydd eraill;
- vii) Cynrychiolwyr Grwpiau anghrefyddol/athronyddol.

**Paragraff 18:** Mae dwy frawddeg gyntaf a brawddeg olaf y paragraff yn cyfeirio at y gyfraith ond nid yw'n ymhelaethu tra bod y drydedd frawddeg yn cyfeirio at aelodaeth pwyllgorau'r pwnc mewn awdurdod lleol. Nid oes rhediad clir i drafodaeth y paragraff sy'n arwain at ddiffyg synnwyr. Oes rhywbeth ar goll fan hyn?

Beth yw ystyr y gair 'newid perthnasol' yn y frawddeg gyntaf? Oni fyddai newid 'sylweddol' yn well cyfieithiad o 'material change' yn y fersiwn Saesneg?

Os bwriedir cadw CYSAGau a CMLIC, byddwn wedi gwerthfawrogi gweld yn glir beth yw pwrpas a swyddogaethau y cyrff hyn pan ddaw'r cwricwlwm newydd yn weithredol. Wedi'r cyfan maent yn gyrff statudol. Rwy'n cymryd mai ysgolion/clystyrau o ysgolion lleol fydd o Medi 2022 yn penderfynu beth fydd yn cael ei addysgu o ran cynnwys y pwnc a'r pwysoli rhwng y gwahanol grefyddau/safbwyntiau anghrefyddol ar ôl iddynt ystyried dderbyn y Maes Llafur Cytunedig.

Sialens i ysgolion gwirfoddol a reolir/a gynorthwyir â nodweddion crefyddol sydd ym mharagraffau 24-28. Mae ein atebion i gwestiynau 4-6 yn adlewyrchu safbwynt yr eglwysi rhyddion.

Rydym yn gwerthfawrogi eich bod wedi derbyn ein hawgrym mewn ymgynghoriad blaenorol i ddefnyddio y term Maes Llafur Cytunedig yn hytrach na Cytun.

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennyh i'ch ymateb aros yn ddienw, ticiwch yma

